# RHAGLEN
# HYFFORDDI LLETYGARWCH
# EVI

**AM DDIM** 21ain Mehefin - 14eg Gorffennaf





UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Cymunedau am Waith
Communities for Work +

Addysg Oedolion Cymru
Adult Learning Wales

evi

PROMO CYMRU

## YNGLŶN Â PROMO-CYMRU

Mae ProMo-Cymru, elusen a menter gymdeithasol, yn cynnal ac yn warcheidwaid ar Institiwt Glyn Ebwy (EVI)
Rydym yn falch iawn o fod wedi achub EVI at ddefnydd cymunedol y dyfodol.

## PRIF ARIANWYR

Ariannwyd y rhaglen hyfforddi hon gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.*

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

*Mae Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn rhaglen Llywodraeth y DU ar gyfer 2021/22. Nod hwn yw cefnogi pobl a chymunedau sydd fwyaf mewn angen ledled y DU i dreialu rhaglenni a dulliau newydd i baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredinol y DU. Mae'n buddsoddi mewn sgiliau, cymuned a lleoedd, busnes lleol, a chefnogi pobl i mewn i gyflogaeth. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/uk-community-renewalfund-prospectus

## HYFFORDDIANT A CHYMHWYSTER

Mae'r Hyfforddiant Lletygarwch arbennig yma wedi ei ariannu gan Gronfa Adnewyddu Gymunedol y DU, ac mae ar gael yn **rhad ac am ddim** i drigolion Blaenau Gwent. Er mwyn cymryd rhan yn yr hyfforddiant, mae'n rhaid i chi fyw yn ardal Awdurdod Lleol Blaenau Gwent. **Rydym yn eich annog i gwblhau'r rhaglen yn ei gyfanrwydd.**

Caiff achrediad ei gyflwyno gan gymwysterau a phrentisiaethau Highfield.

Gallwn gynnig sawl mesur ychwanegol i'ch cefnogi a gallwn eich cyfeirio at gymorth ychwanegol wrth chwilio am gyflogaeth, cyfleoedd gwirfoddoli ac yn y blaen.

Cysylltwch gydag unrhyw gwestiynau, a byddwn yn hapus i'ch helpu.







# RHAGLEN HYFFORDDI LLETYGARWCH EVI

Croeso i EVI. Rydym yn falch iawn o'n cydweithrediad gyda Chymunedau dros Waith a Mwy ac Addysg Oedolion Cymru i gynnig ein Rhaglen Hyfforddiant Lletygarwch yn rhad ac am ddim, wedi'i gynllunio'n arbennig i'ch cefnogi i feithrin y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant lletygarwch. Pa un ai hoffech chi ddiweddaru eich sgiliau craidd, neu eich bod yn edrych i gychwyn gyrfa lletygarwch, dyma'r rhaglen i chi.

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal wyneb-yn-wyneb yn awyrgylch cynnes ac anffurfiol EVI. Mae'r hyfforddiant achrededig hwn yn rhoi sylw i bob agwedd o weithio o fewn y sector lletygarwch, gan gynnwys: Diogelwch Bwyd, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Iechyd a Diogelwch, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), Codi a Chario, Diogelwch Tân a Chymorth Cyntaf. Mae'r Rhaglen Hyfforddi Lletygarwch hefyd yn cynnwys Hyfforddiant Bar a Hyfforddiant Barista anffurfiol yn ychwanegol i'r cyfle cyffrous hwn.

Ariannwyd yr hyfforddiant drwy Gronfa Adfywio Gymunedol y DU, ac mae'n rhad ac am ddim i drigolion Blaenau Gwent.

Er mwyn cymryd mantais o'r cyfle hwn, **cofrestrwch ar Eventbrite**. Os hoffech wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â **sian@evi.cymru** neu **sam@evi.cymru** neu ffoniwch Sian neu Sam ar **01495 708022**

Cyrsiau Achrededig

# DIOGELWCH BWYD

**DYDD MAWRTH 21 MEHEFIN | 9.30YB - 4.30YH**

Mae’r cwrs un diwrnod hwn yn cynnig cymhwyster a adnabyddir gan gyflogwyr o fewn y Diwydiant Bwyd. Mae’n addas ar gyfer y gegin broffesiynol a domestig, pa un ai eich bod yn dechrau o’r dechrau wrth baratoi bwyd neu eich bod yn darparu lluniaeth wedi’i baratoi o flaen llaw.

# IECHYD A DIOGELWCH

**DYDD MERCHER 22 MEHEFIN | 9.30YB - 4.00YH**

Cwrs un diwrnod achrededig fydd yn rhoi dealltwriaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch a’ch galluogi chi i adnabod peryglon posibl yn y gweithle.

# DIOGELWCH TÂN

**DYDD MERCHER 29 MEHEFIN | 9.30YB - 4.00YH**

Mae’r hyfforddiant Diogelwch Tân yn eich dysgu chi am risgiau tân yn y gweithle a pha fesurau diogelwch dylid eu gosod i'w rheoli. Mae’n egluro cyfrifoldebau cyfreithiol pawb, achosion cyffredin tân, sut i'w hatal, pa reoliadau diogelwch sydd yn angenrheidiol a’r pwysigrwydd o ddilyn gweithdrefnau argyfwng.







Cyrsiau Achrededig

# CYMORTH CYNTAF YN Y GWEITHLE

**DYDD MAWRTH 5 MEHEFIN | 9.30YB - 4.00YH**

Bydd y cwrs achrededig hwn yn ymgyfarwyddo’r myfyrwyr gyda rolau a chyfrifoldebau Person Cymorth Cyntaf Mewn Argyfwng o fewn y gweithle, gan gynnwys asesu digwyddiad, adnabod arwyddion a symptomau o niwed ac afiechyd, a rhoi cymorth i glaf yn y gweithle.

Gwisgwch ddillad cyfforddus ar gyfer yr hyfforddiant hwn os gwelwch yn dda, gan y bydd elfen ymarferol, e.e., yr ystum adfer ac adfywio.

# GWASANAETH CWSMER

**DYDD MERCHER 6 GORFFENNAF | 9.30YB - 4.00YH**

Bydd y cwrs achrededig hwn yn helpu unrhyw un sy’n gweithio mewn gwasanaeth cwsmer i wella eu sgiliau, gan sicrhau eu bod yn darparu’r profiad gorau i bob cwsmer bob tro, er mwyn cynnal perthnasau da, statws, a llwyddiant. Bwriad y cwrs hwn yw darparu gwybodaeth a sgiliau angenrheidiol i'r rhai sy’n gweithio o fewn y diwydiant gwasanaeth cwsmer er mwyn sicrhau y gallent gynnig y safon uchaf o wasanaeth i bob cwsmer.





Cyrsiau Achrededig

# RHEOLIADAU RHEOLI SYLWEDDAU PERYGLUS I IECHYD (COSHH)

**DYDD MAWRTH 12 GORFFENNAF | 9.30YB - 4.00YH**

Bydd y cwrs achrededig hwn yn dysgu:

- Prif beryglon i iechyd
- Sut i atal niwed i iechyd (asesiad risg)
- Sut i ddatblygu'r mesurau rheoli hanfodol i leihau niwed i iechyd
- Pwysigrwydd cadw record o'r holl fesurau rheoli a sicrhau eu bod mewn trefn dda, darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ac eraill.

# CODI A CHARIO

**13 A 14 GORFFENNAF | 9.30YB - 4.00YH**

Bydd y cwrs achrededig dau ddiwrnod hwn yn amlinellu rolau'r cyflogwr a'r gweithiwr mewn cysylltiad â chodi a chario a dysgu technegau codi a chario.





Hyfforddiant Anffurfiol

# SGILIAU BAR YMARFEROL

## GYDA STUART STEVENS

**DYDD IAU 23 MEHEFIN | UNAI 10-12.30 NEU 2-4.30**

Cyfle i ymarfer tynnu peint, newid casgenni, a dod yn gyfarwydd â gwasanaethu cwsmeriaid mewn amgylchedd ymlaciol a chyfeillgar. Yn cael ei arwain gan Stuart Stevens, sydd wedi gweithio y tu ôl i far ac mewn digwyddiadau amrywiol ers yn 18 oed. Bydd Stuart yn eich helpu i fagu hyder a dysgu'r sgiliau angenrheidiol i weithio o fewn y diwydiant lletygarwch yn ystod y sesiwn 2.5 awr yma. Byddech yn derbyn tystysgrif ar ôl cwblhau'r cwrs.
Yn dilyn y sesiwn ymarferol, bydd tîm EVI yn gallu'ch cyfeirio at gyfleoedd achrededig eraill er mwyn gallu datblygu ymhellach.

# HYFFORDDIANT BARISTA

**DYDD MAWRTH 28 MEHEFIN | UNAI 10-12.30 NEU 2-4.30**

Bydd ein Hyfforddiant Barista yn cael ei arwain gan Hannah a Huw Williams o'r Big Dog Coffee Company. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys:

- Cyflwyniad i Goffi a Phrosesu Coffi
- 'Dialling in Espresso' (sut i gael y gore allan o'ch coffi) a Chreu Ryseitiau Coffi
- Diodydd gyda llaeth (cappuccino, latte, espresso, flat white, americano)
- Maint Cwpanau
- Cyflwyniad i gelf latte
- Dewisiadau gwahanol o laeth

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn ôl safonau'r Specialty Coffee Association. Bydd tystysgrifau yn cael eu cyflwyno ar ôl cwblhau'r cwrs.

# CYFLEOEDD PELLACH

Mae tîm EVI yn falch iawn o allu cynnig amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith a gwirfoddoli o fewn y ganolfan. Gall hyn amrywio o brofiad gwaith pythefnos i gyfle lleoliad gwaith chwe mis.

Gall Cymunedau dros Waith a Mwy ddarparu mentor personol ar eich cyfer. Gall mentor wneud cais am gyllid i'ch helpu i oresgyn rhwystrau megis cludiant, hyfforddiant a gofal plant, i'ch cael chi at y swydd rydych ei angen. Nodir bod telerau ac amodau ynghlwm â hyn.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi wrth i chi gychwyn ar eich siwrne gyda EVI.

# SUT I GOFRESTRU

**SGANIWCH I GOFRESTRU!**

Neu ffoniwch, galwch draw i'r ganolfan neu e-bostiwch, a bydd tîm EVI yn hapus i gymryd eich manylion a'ch cofrestru!

@EbbwValeEVI

@ebbwvaleEVI

@evi_ebbw_vale

www.evi.cymru

**CYSYLLTU: 01495708022 / GALWCH DRAW / SIAN@EVI.CYMRU**

Institiwt Glyn Ebwy, Church Street, Glyn Ebwy, NP23 6BE